Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

Ysgol Carreg Emlyn

Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY

Tel: Clocaenog 01824 750636 Cyffylliog 01824 710274

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

www.ysgolcarregemlyn.cymru

@carregemlyn

Newyddion 20/3/17 News

Cystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd
Urdd Art and Craft Competitions

Cofiwch fod angen unrhyw waith Celf a Chrefft yr Urdd i mewn erbyn **YFORY** ar yr hwyraf. A reminder that any Urdd Arts and Craft Work should be in by **TOMORROW** at the latest.

Bingo Pasg / *Easter Bingo*

Cofiwch ein bod angen y wyau Pasg at y Bingo Pasg yn yr ysgol erbyn **Dydd Gwener yma sef Mawrth 24ain.** *A reminder that we need the Easter eggs for the Easter Bingo in by* ***this Friday March 24th.***

Diwrnod Trwyn Coch / *Red Nose Day*

Cofiwch y byddwn yn dathlu Diwrnod Trwyn Coch Dydd Gwener yma. Mae'r Cyngor Ysgol wedi penderfynnu y byddwn i gyd yn dod i'r ysgol yn gwisgo coch ar y diwrnod ac yn cyfranu £1 at yr achos. Maent am drefnu Sioe Gwis hwyliog ar gyfer y prynhawn hefyd. *We will be celebrating Comic Relief Red Nose Day this Friday. The School Council have decided that everyone should come to school dressed in red on the day and donate £1 to Comic Relief. They are also organising a fun Quiz Show for the afternoon as well.*

Clybiau/Clubs

Mae Clwb yr Urdd Bl 1 a 2 wedi dod i ben erbyn hyn gan fod y gystadleuaeth Celf yr Urdd Dydd Mercher yma. Hwn fydd wythnos olaf i Glwb yr Urdd i blant CA2. Bydd Clwb Garddio CA2 yn cychwyn yr wythnos nesaf gyda clwb i Bl 3 a 4. Bydd Clwb Chwaraeon CA2 yn dechrau ar ôl gwyliau'r Pasg. *Yr 1 & 2 Urdd Club has finished now as the Urdd Craft Competition is this Wednesday. This is the last week of the Urdd Club for KS2. The Gardening Club will be staring next week with club for Yr 3 & 4 children. There will be a Sports club for KS2 after the Easter holidays.*

Dyddiadau i'w Cofio
Dates for your Diary

21/3/17 CA2 Clwb yr Urdd *Club KS2*
22/3/17 Celf a Chrefft yr Urdd – Cylch Rhuthun / *Urdd Arts and Craft Competition – Ruthin Area*
24/3/17 Casgliad dillad BAG2SCHOOL *Clothes collection*
24/3/17 Diwrnod Trwyn Coch /Red Nose Day
28/3/17 Gala Nofio Ardal *Rhuthun Area Swimming Gala*
28/3/17 Clwb Garddio Bl 3 & 4 *Gardening Club 3.15 – 4.15pm*
29/3/17 Ymarfer Côr a Phartion yr Urdd. *Practice for Urdd Choir, Cerdd Dant and Singing Parties* 3.15 – 4.30pm
31/3/17 Bingo Pasg Cyfeillion yr Ysgol / *Friends of the School Easter Bingo.* Canolfan Cae Cymro 6pm.
1/4/17 Eisteddfod Sir yr Urdd *County Eisteddfod* Rhuthun
3/4/17 Noson Rieni CA2 / *KS2 Parents Evening* 3.40 – 7.30pm
5/4/17 Noson Rieni Meithrin, Derbyn, Bl 1 a 2 / *Nursery, Reception, Yr 1 & 2 Parents Evening 3.30 - 7.30pm*
6/4/17 Clwb Garddio Bl 5 & 6 *Gardening Club 3.15 – 4.15pm*
7/4/17 Cau dros Pasg / *Close for Easter*
24/4/17 Diwrnod Hyfforddiant Staff / *Staff Training Day*
25/4/17 Plant yn cychwyn / *Children re start*
25/4/17 Clwb Garddio Bl 3 a *4 Gardening Club*
3 – 10/5/17 Profion Cenedlaethol Bl 2 – 6 / Yr 2-6 National Tests
5/5/17 Eisteddfod Derwen.
9/5/17 Cyfarfod Cyfeillion yr Ysgol / *Friends of the School Meeting* 7.30pm Cyffylliog.
19/5/17 Helfa Drysor Cyfeillion yr Ysgol / *Friends of the School Treasure Hunt*
26/5/17 Cau dros Hanner Tymor / Close for *Half Term*

Lluniau Sul y Mamau
Free Press
Mother's Day Picture

Bydd lluniau'r plant o'u mhamau yn y Free Press yr wythnos yma – felly cofiwch ei brynu. *The children's pictures of their mums will be in the Free Press this week – so remember to buy it!*

Seren yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Jake, Elsa, Leia, Deian ac Ella am fod yn Sêr yr Wythnos. Da iawn chi!

Ymweliad gan Gadeirydd y Cyngor Sir
Visit by County Council Chairperson

Daeth Mrs Anne Davies sydd ar hyn o bryd yn Gadeirydd Cyngor Sir Ddinbych i'n gweld bnawn Llun diwethaf. Roedd y Cyngor Ysgol wedi ei chyfarfod pan ymwelon nhw a Neuadd y Sir a daeth hi a hen luniau o Ysgol Clocaenog i ni yn anrheg. Hefyd daeth a llun o'i mham oedd yn gyn ddisgybl yn Ysgol Clocaenog ar ddechrau'r ganrif diwethaf i ddangos i'r plant. Daeth ei chefnder Mr Bob Hughes gyda hi i'n gweld. *Mrs Anne Davies who is the County Council Chairperson came to visit the school last Monday. The School Council had met her when they visited County Hall and Mrs Davies brought us gifts of old photos of Ysgol Clocaenog. She also showed them a photo of her mother who came to Ysgol Clocaenog at the beginning of the last century. She brough her cousin Mr Bob Hughes with her to visit us.*

Cogurdd

Bu Maisy yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Cogurdd Sir Ddinbych yr wythnos diwethaf. Coginiodd Tabulleh a Peli Egni blasus iawn! Yn anffodus nid oedd ddigon lwcus i fynd ymlaen i'r rownd genedlaethol. *Maisy represented the school in the Cogurdd County Competition last week. She cooked delicious Tabulleh and Energy Balls, but unfortunately hasn't gone through to the National Round.*

Eisteddfod yr Urdd

Bydd y Côr, Parti Llefaru, Parti Unsain, Parti Cerdd Dant a'r Grwp Ymgom yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir yn Rhuthun Dydd Sadwrn Ebrill 1af. Bydd rhagbrawf yn y bore i'r Parti Cerdd Dant a'r Parti Llefaru am tua 10.30am ac yna os cant lwyfan bydd angen iddynt berfformio eto yn y prynhawn. Bydd cystadleuaeth yr ymgom yn y bore hefyd am 10.30am. Bydd cystadleuthau y bore a'r rhagbrofion yn Ysgol Brynhyfryd ac Eisteddfod y Prynhawn yn Mart Rhuthun. Nid oes rhagbrofion i'r Côr na'r Parti Unsain a bydd angen iddynt fod yn Mart Rhuthun erbyn tua 1.30pm. **Os nad ydy eich plentyn yn medru dod i'r Eisteddfod a wnewch adael i ni wybod yn syth.** Hefyd bydd ymarfer i bawb ar ôl ysgol **DYDD MERCHER NESAF** sef Mawrth 29ain tan 4.30pm. Gobeithio y bydd pawb yn medru aros i'r ymarfer yma. *The Choir, Recitation Party, Unison Party, Cerdd Dant Party and Ymgom Group will be competing in the Urdd County Eisteddfod in Ruthin on Saturday April 1st. There will be prelims in the morning for the Cerdd Dant and Recitation Parties at around 10.30am and they will be on stage in the afternoon if they are in the top three. The Ymgom Group will also be competing in the morning at 10.30am. The prelims and the other morning competitions will be held at Ysgol Brynhyfryd, then the afternoon Eisteddfod will be held at Ruthin Auction. There is no prelim for the Choir or Unison Party and they will need to be in Ruthin Auction by around 1.30pm.* ***If your child cannot go to the Eisteddfod can you let us know at once.*** *Also there will be a practice for all the groups and choir after school* ***NEXT WEDNESDAY*** *March 29th until 4.30pm. Hopefully all the children will be able to attend.*

Pel Droed / Football

Llongyfarchiadau i'r tim pel droed am chwarae yn ardderchog yn Nhwrnament Dyffryn Clwyd – ennill 4 gem a chyfartal yn y llall – ardderchog! *Congratulations to the football team for playing so well in the Vale of Clwyd Tournament – winning 4 games and drawing one- excellent!*

Poster Gwyl Ddewi.
St David's Day Poster

Llongyfarchiadau i Ella enillodd £100 i'r ysgol wrth ennill cystadleuaeth creu poster Gwyl Ddewi New Directions. Cafodd fag o offer celf iddi hi ei hun hefyd. *Congratulations to Ella who has won £100 for the school by winning New Directions St Davids Day poster competition. She also won a goody bag full of arts and crafts resources.*

Noson Gwyl Ddewi
Capeli Clawdd a Derwen Chapel
St David's Evening

Diolch i'r plant ddaeth ar y noson – roedd canmol mawr iddynt! Thanks to the children who came on the evening – everyone praised their performances.